**Rhif: WG27743**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2016 drafft

Rydym yn ceisio eich barn am y newidiadau mawr i'r ffordd y mae deintyddion a'u timau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn cael eu rheoleiddio

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Ebrill 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig creu cyfundrefn newydd, fwy effeithiol ar gyfer rheoleiddio practisau deintyddol preifat. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn cleifion, y cyhoedd, aelodau timau deintyddol sy'n darparu deintyddiaeth breifat a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'r newidiadau mawr i'r ffordd y mae deintyddion a'u timau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn cael eu rheoleiddio.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Y rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddion preifat ar hyn o bryd yw Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd yn 2011) ("Rheoliadau 2008"). Ein bwriad yn awr yw cyflwyno Rheoliadau newydd a hoffem ymgynghori ynghylch y rhain.

Nid yw gwasanaethau deintyddol preifat a ddarperir gan ddeintyddion sy'n gweithio yn ysbytai'r GIG yn cael eu rheoleiddio gan Reoliadau 2008. Rhaid i'r deintyddion hynny gydymffurfio â safonau'r GIG ac mae ysbytai'r GIG yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Nid yw'r gwasanaethau deintyddol preifat, a ddarperir gan ddeintyddion sy'n gweithio mewn ysbytai annibynnol yn unig, yn cael eu rheoleiddio gan Reoliadau 2008 ychwaith oherwydd bod y personau sy'n rhedeg neu'n rheoli ysbytai annibynnol yn cael eu rheoleiddio gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac mae'r ysbytai'n cael eu harolygu gan AGIC.

Dyma nodweddion Rheoliadau 2008:

- maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintyddion unigol, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat, gofrestru gydag AGIC
- nid ydynt yn cynnwys gofynion y safon ansawdd a diogelwch sy'n ofynnol ym mhractisau deintyddol y GIG
- nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i Weithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol (megis hylenwyr deintyddol) gofrestru gydag AGIC er mwyn darparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat o'u practis hwy eu hunain
- maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn amlach na deintyddion a meddygon sy'n darparu gofal y GIG dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau

Rhestri Cyflawnwyr y GIG")
- maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat gofrestru dan Reoliadau 2008. Os defnyddir laserau ar gyfer unrhyw driniaeth ddeintyddol, rhaid i'r practis hefyd gofrestru dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

O dan y system newydd arfaethedig:
- bydd yn ofynnol i'r person sy'n rhedeg neu'n rheoli practis deintyddol lle y darperir gwasanaethau deintyddol preifat gofrestru gydag AGIC. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod y practis cyfan yn cael ei gofrestru gydag AGIC ac yn ddarostyngedig i Reoliadau 2016
- bydd yn ofynnol i Weithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol sy'n darparu triniaeth ddeintyddol mynediad uniongyrchol breifat o'u safle eu hunain gofrestru eu practis gydag AGIC a bydd y practis yn ddarostyngedig i Reoliadau 2016
- bydd yn ofynnol bod gan bractisau deintyddol lle y darperir gwasanaethau deintyddol preifat drefniadau ansawdd a diogelwch ar waith sy'n fwy cyson â'r rheini sy'n ofynnol gan y GIG
- bydd gofynion archwiliadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu halinio â'r rheini sy'n ofynnol gan y GIG a byddant hefyd yn cynnwys archwiliadau ar gyfer aelodau eraill y tîm deintyddol, megis nyrsys deintyddol, hylenwyr deintyddol a therapyddion deintyddol
- ni fydd angen i berson sy'n rhedeg neu'n rheoli practis deintyddol preifat lle y defnyddir laserau ond gofrestru dan Reoliadau 2016.

Bwriedir i Reoliadau 2016 ddod i rym yn ystod mis Gorffennaf 2016. Bydd cyfnod o ddim mwy na blwyddyn i bractisau deintyddol wneud cais i gofrestru gydag AGIC. Fodd bynnag, dylai practisau sy’n darparu mynediad uniongyrchol at Weithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol preifat, nad ydynt wedi eu cofrestru ar hyn o bryd, gofrestru cyn gynted ag y daw y Rheoliadau i rym.

**Sut i ymateb**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw dydd Gwener 22 Ebrill 2016. Cewch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan.

Fel arall, defnyddiwch y ffurflen ymateb ar wahân. Dylid dychwelyd yr ymatebion hyn naill ai'n electronig neu drwy'r post i:

**E-bost**: dentalconsultation@wales.gsi.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gallwch ddarllen y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 cyfredol a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiedig) 2011 yma.

At hynny, mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol sy'n darparu unrhyw driniaeth ddeintyddol breifat (gweler a31(3) Deddf Safonau Gofal 2000). Mae AGIC yn cynnal yr arolygiadau hyn bob 3 blynedd o leiaf.

Mae AGIC yn arolygu practisau yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal a, lle bo'n berthnasol, gofynion cyfreithiol Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008.

Gallwch ddarllen am broses arolygu darpariaeth ddeintyddol AGIC yma.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn caniatáu i rai Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ddarparu triniaeth i gleifion drwy fynediad uniongyrchol; hynny yw, heb orfod gweld deintydd yn gyntaf. Gallwch ddarllen mwy am fynediad uniongyrchol yma.

**Manylion Cysylltu**

Am fanylion pellach, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Polisi Deintyddol
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol
Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

**E-bost**: dentalconsultation@wales.gsi.gov.uk

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel

arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cyflwyniad – beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn

1. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn am y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2016 drafft ("Rheoliadau 2016") a'u heffaith reoliadol ddisgwyliedig. Mae'r rhain wedi eu hegluro yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) drafft.

2. Bwriedir i Reoliadau 2016 ddisodli Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2009 ac a ddiwygiwyd yn 2011.

## Beth yw'r prif newidiadau?

3. Mae'r prif newidiadau i'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer deintyddion preifat fel a ganlyn.

**Cofrestru**

- Caiff Rheoliadau 2008 eu dirymu gan Reoliadau 2016 ac ni fydd gofyn i ddeintyddion preifat bellach gofrestru'n unigol gydag AGIC. Yn hytrach, bydd gofyn i'r person sy'n rhedeg neu'n rheoli'r practis deintyddol preifat gofrestru gydag AGIC, dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a bydd y practis cyfan yn cael ei reoleiddio a'i arolygu gan AGIC. (O dan Reoliadau 2016, mae practis deintyddol preifat yn ymgymeriad sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat, neu'n cynnwys darpariaeth o'r fath, neu wasanaethau gan weithiwr gofal deintyddol proffesiynol, sydd ar wahân i'r GIG).
- Gwasanaethau deintyddol preifat yn unig fydd rhai practisau deintyddol preifat yn eu cynnig tra bydd eraill yn cynnig cyfuniad o wasanaethau deintyddol preifat a rhai'r GIG. Cyn belled â bod y practis yn cynnig rhai gwasanaethau deintyddol preifat, bydd gofyn i'r person sy'n rhedeg neu'n rheoli'r practis gofrestru gydag AGIC.
- Bydd deintyddiaeth breifat a gyflawnir mewn ysbyty GIG yn unig neu mewn ysbyty a reoleiddir dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (ysbyty annibynnol) wedi ei heithrio rhag ei rheoleiddio dan reoliadau 2016.
- Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad cyfreithiol i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol gofrestru gydag AGIC i ddarparu gofal deintyddol preifat dan drefniadau mynediad uniongyrchol. Caiff Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, mynediad uniongyrchol, weithio mewn practis gyda deintyddion ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol neu gallant weithio o'u safle eu hunain heb i ddeintydd fod yn bresennol. Ni fydd Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol bellach yn cael darparu triniaeth ddeintyddol mynediad uniongyrchol o'u safle eu hunain heb gael eu rheoleiddio a'u harolygu gan AGIC.
- Bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i gofrestru deintyddion unigol ac aelodau o dimau deintyddol clinigol, gan gynnwys Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol. Felly, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r corff rheoleiddio ledled y DU ar gyfer deintyddion a Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol unigol.

**Ansawdd a Diogelwch**

- Nid yw Rheoliadau 2008 yn nodi'n benodol nifer o ddangosyddion ansawdd a diogelwch pwysig. Mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ag ymarfer deintyddol y GIG a sicrhau ei bod yn ofynnol i bractisau sy'n gyfan gwbl breifat gyrraedd y safonau ansawdd cydnabyddedig a eglurwyd yn y Safonau Iechyd a Gofal.
- Mae'r trefniadau arfaethedig yn cynnwys materion sy'n ymwneud â:

  - **diogelu plant ac oedolion mewn perygl** – bydd yn ofynnol i bractisau wneud trefniadau addas, yn unol â gweithdrefnau cenedlaethol cyhoeddedig, i sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag y perygl o gael eu cam-drin a'u trin yn amhriodol.

- **recriwtio, cyflogi a rhoi hyfforddiant sefydlu i staff** – mae digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau iawn ar gael ar yr amser iawn. Maent wedi eu cofrestru gyda'r cyrff perthnasol ac wedi eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol, ac maent yn fedrus i wneud y gwaith y maent ym ymgymryd ag ef.
- **pennu gofynion yn gysylltiedig â Datblygiad Proffesiynol Parhaus** – mae'r staff yn cael eu galluogi i ddysgu a datblygu i'w llawn botensial. Gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnal neu'n datblygu gwybodaeth a sgiliau.
- **gofyn am adborth gan gleifion** – defnyddio adborth cleifion (er enghraifft, o holiaduron) i ddylanwadu ar newidiadau yn y gwasanaeth a ddarperir ac a roddir.
- **darparu gwasanaethau yn y cartref –** dilyn canllawiau ar ofal diogel pan fo'n angenrheidiol darparu gofal deintyddol yng nghartref person.
- **ymdrin ag achosion meddygol brys** – mae pob aelod o staff yn gwybod beth yw ei swyddogaeth os oes achos meddygol brys; ac mae'r holl aelodau o staff a all fod â rhan mewn delio ag achos meddygol brys wedi ei hyfforddi a'i baratoi i wneud hynny.
- **sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth –** mae anghenion unigolion yn cael eu cydnabod ac eir i'r afael â hwy beth bynnag y bo eu hunaniaeth a'u cefndir. Caiff cleifion eu trin yn deg fel unigolion a heb wahaniaethu yn eu herbyn.

**Archwiliadau Datgelu a Gwahardd**

5. Rhaid i ddeintyddion sy'n dymuno gweithio mewn practis deintyddol yn y GIG yng Nghymru feddu ar archwiliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fyddant yn gwneud cais i gael eu cynnwys ar Restr Cyflawnwyr Deintyddol y GIG y bwrdd iechyd. Nid oes angen iddynt gael archwiliad arall gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, oni fyddant yn symud i fwrdd iechyd arall neu fod y bwrdd iechyd yn gofyn am hynny. Dan Reoliadau 2008 rhaid i ddeintydd preifat, sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC, feddu ar dystysgrif cofnod troseddol fanylach a roddwyd o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Nid oes tystiolaeth bod archwiliadau a gaiff eu cynnal mor aml â hyn yn fwy effeithiol ac felly rydym yn cynnig alinio'r gofynion yn Rheoliadau 2016 â Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr y GIG. Bydd gofyn i aelodau eraill tîm deintyddol hefyd, megis nyrsys deintyddol, hylenwyr deintyddol a therapyddion deintyddol, gael archwiliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd angen iddynt gael archwiliad arall os byddant yn symud i bractis gwahanol neu os bydd perchnogaeth y practis yn newid a'i fod yn cofrestru gydag AGIC fel practis gwahanol.

6. Un rhan yn unig fydd archwiliadau'r Gwasanaeth Datgleu a Gwahardd i ddiogelu a rhedeg y practis yn ddiogel. Mae mesurau diogelu eraill dan Reoliadau arfaethedig 2016 yn cynnwys:

- sefydlu prosesau recriwtio priodol
- gwirio geirda
- darparu hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus mewn diogelu
- defnyddio canllawiau cenedlaethol ar ddiogelu a gwybod pryd a sut i gysylltu ag arweinwyr diogelu lleol.

**Defnyddio Laserau**

7. Mae nifer bach o ddeintyddion yn defnyddio laserau i ddarparu triniaeth ddeintyddol arbenigol. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ddeintyddion gofrestru gydag AGIC o dan Reoliadau 2008 i ddarparu deintyddiaeth breifat a than Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 i ddefnyddio laserau. Nid yw'r cofrestru deuol hwn o gymorth, gan nad oes gofyn i ddeintyddion gofrestru ar wahân i ddefnyddio offer arbenigol arall. Rydym yn cynnig cynnwys hysbysiad o ddefnyddio laserau fel rhan o Reoliadau 2016, a fydd yn symleiddio'r

broses yn sylweddol i ddeintyddion sy'n defnyddio'r offer hwn. Caiff Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, hefyd ddefnyddio laserau cyn belled â'u bod yn gweithredu o fewn Cwmpas Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Ffioedd**

8. Ni fydd yn ofynnol i ddeintyddion unigol bellach dalu ffi flynyddol o £75. Yn hytrach, codir ffi flynyddol o £500 ar bob practis deintyddol preifat. Bydd y ffi flynyddol a gynigir yn cyfrannu tuag at gostau AGIC am reoleiddio ac arolygu. Mae Rheoliadau 2016 yn cynnwys manylion pryd y gellir ad-dalu ffioedd, pryd y cesglir hwy a ffioedd am amrywio amod rheoleiddio.

**Tystiolaeth o blaid Newid**

9. Yn *Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg 2013-18,* nododd Llywodraeth Cymru gynnig penodol i:
**“...** *weithio gyda’r proffesiwn deintyddol i ailedrych ar reoliadau Deintyddiaeth Breifat ac yn arbennig ystyried p’un a all, a sut y gall, practisau deintyddol – yn hytrach na deintyddion unigol – gofrestru i ddarparu gofal deintyddol preifat.”*

10. Datblygwyd Rheoliadau drafft 2016 gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol, AGIC a rhanddeiliaid allweddol eraill.

11. Yn 2013, gwnaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol benderfyniad i ganiatáu mynediad uniongyrchol. Mae hyn yn caniatáu i rai Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, yn enwedig hylenwyr deintyddol a therapyddion deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol, ddarparu gofal deintyddol priodol i gleifion heb i'r claf orfod gweld deintydd yn gyntaf. O dan drefniadau mynediad uniongyrchol, rhaid i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol weithio o fewn Cwmpas Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod wedi’u cymhwyso a’u hyfforddi’n briodol a'u hindemnio ar gyfer y swydd. Mae'r rheoliadau presennol yn caniatáu i ddeintyddion gofrestru gydag AGIC, ond nid y Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol. Mae'n bosibl felly i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol mynediad uniongyrchol preifat redeg eu practis eu hunain yng Nghymru, heb gofrestru a heb y diogelwch y mae cofrestru'n ei gynnig i gleifion a'r practis.

12. Nid oes tystiolaeth bod archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob 3 blynedd yn rhoi mwy o sicrwydd, ac mae'n anghyson â gofynion y GIG. Dylai Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol sy'n cynnig gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat o'u safle eu hunain gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth wneud cais i gofrestru gydag AGIC.

13. Mae'r ffi arfaethedig o £500 yr un fath â'r hyn y mae practisau meddygol cyffredinol, preifat yn ei dalu i gofrestru gydag AGIC ac mae'n llai na'r hyn a delir gan bractisau deintyddol yn Lloegr, sy'n cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) - rhwng £600 a £1300 y flwyddyn ar hyn o bryd, yn dibynnu ar faint y practis.

14. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer timau deintyddol i gyd-fynd â Rheoliadau 2016. Bydd hyn yn gymorth i dimau deintyddol gydymffurfio â'r rheoliadau drwy eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth, er enghraifft, yr arweiniad ynghylch Diheintio a Dadhalogi mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol.

## Pa ganlyniadau ydym ni'n eu disgwyl?

15. Disgwyliwn y bydd y canlyniadau yn:

- darparu mwy o degwch â safonau ansawdd a diogelwch y GIG
- gwella'r aliniad rhwng cofrestru practis ac arolygu practis, gan ddarparu sicrwydd bod y tîm deintyddol cyfan wedi ei gynnwys yn y broses gofrestru a safonau ansawdd;
  - bydd cofrestru practis yn dod â holl staff y practis dan y rheoliadau yn hytrach na'r deintydd(ion) yn unig, sy'n atgyfnerthu'r swyddogaeth sydd gan bob aelod o'r tîm deintyddol mewn darparu gwasanaeth effeithiol a diogel
  - bydd cofrestru practis, yn hytrach na chofrestru deintyddion unigol, yn fwy o gymorth i AGIC wrth arolygu'r practis, gan y bydd yn ategu'r angen i holl aelodau'r tîm deintyddol gymryd rhan weithredol yn y broses arolygu
- rhoi sicrwydd bod Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, sy'n gweithredu o'u safle eu hunain yn destun yr un broses gofrestru ac arolygu â phractisau deintyddol
- cynyddu'r cwmpas cyfyngedig yn Rheoliadau 2008 i AGIC dynnu deintydd oddi ar gofrestr y deintyddion preifat, os bydd y deintydd yn methu â thalu ei ffi flynyddol. Bydd Rheoliadau 2016 yn gwneud darpariaeth i bractis deintyddol gael ei dynnu oddi ar gofrestr AGIC lle mae methiannau difrifol iawn yn safonau'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir, a allai gael effaith anffafriol ar ddiogelwch cleifion.

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

16. Darparwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft i ragamcanu beth fydd effaith y Rheoliadau 2016 arfaethedig. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau a manylion y costau a'r buddion o wneud y ddeddfwriaeth arfaethedig.

17. Hoffem gael eich barn am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, yn enwedig ar yr effaith y disgwylir i gyflwyno'r Rheoliadau 2016 ei chael ar bractisau deintyddol.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (os yn berthnasol): | |
| E-bost: | |
| Rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| **Cwestiwn 1. Cofrestru Practis** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno â'r newid o gofrestru deintyddion unigol i gofrestru practisau deintyddol sy'n darparu unrhyw ddeintyddiaeth breifat? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |

| **Cwestiwn 2. Mynediad uniongyrchol at Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno bod rhaid i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol sy'n darparu gofal deintyddol mynediad uniongyrchol preifat yn eu safle eu hunain gofrestru fel practis mynediad uniongyrchol preifat gydag AGIC? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |

| **Cwestiwn 3. Ansawdd a Diogelwch** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno â'r materion ansawdd a diogelwch yr ymdriniwyd â hwy yn y rheoliadau drafft? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer materion ansawdd a diogelwch ychwanegol a ddylai gael eu cynnwys yn Rheoliadau 2016? | | | |

| **Cwestiwn 4. Archwiliadau Datgelu a Gwahardd** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno â'r newid i ofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel bod rhaid i ddeintyddion, staff y practis a Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat o'u safle eu hunain gael archwiliadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd y practis yn cofrestru gydag AGIC? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |
| **Cwestiwn 5. Defnyddio laserau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i newid y gofynion i gofrestru ar gyfer defnyddio laserau? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 6. Ffioedd** | | | |
| Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros gynyddu'r ffi i gofrestru gydag AGIC? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ydych chi'n cytuno â'r ffi a gynigir? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)** | | | |
| Ydych chi'n cytuno â'r costau/buddion rhagdybiedig sy'n gysylltiedig â gweithredu Rheoliadau 2016? | | | |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 8. Asesiad Effaith Rheoleiddiol - costau disgwyliedig** | | | |
| Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y costau disgwyliedig i bractisau / busnesau deintyddol? | | | |
| Oes | | Nac oes | |
| Sylwadau: | | | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 9. Sylwadau eraill** |
| Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, gwnewch sylwadau isod: |
| Sylwadau: |

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ateb chi aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐